**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 25 Hydref 2016**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorydd Huw Jones, Aelod Arweiniol Datblygu Cymunedol.<br><br>Mohammed Mehmet, Prif Weithredwr |
| **2** | DATGANIADAU CYSYLLTIAD | Roedd y Cynghorydd Mark Young yn datgan cysylltiad personol yn eitem 5 ar y rhaglen gan fod ei dad yn un o'r trigolion yn Nolwen, Dinbych. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2016 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | DIWEDDARIAD AR WASANAETHAU GOFAL MEWNOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn gofyn i Swyddogion gynnal –*<br><br>*(a) proses dendro ffurfiol mewn cysylltiad â darpariaeth gwasanaethau yn Hafan Deg (Y Rhyl) gyda'r bwriad o drosglwyddo'r adeilad i sefydliad allanol, gan gomisiynu gwasanaeth gofal dydd yn yr adeilad ac, yn ogystal, galluogi asiantaethau 3ydd sector i ddarparu gweithgareddau ymyrraeth fuan i bobl hŷn sy'n lleihau ynysu cymdeithasol, cefnogi annibyniaeth a hybu gwydnwch;*<br><br>*(b) proses dendro ffurfiol mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn Nolwen (Dinbych) gyda sefydliad allanol gyda'r bwriad o drosglwyddo'r adeilad a'r gwasanaeth cyfan i sefydliad allanol a fydd yn cofrestru Dolwen i ddarparu gofal dydd a phreswyl iechyd meddwl yr henoed (IMH);*<br><br>*(c) bod yr holl ddogfennau tendro yn pennu gofynion i ddangos tystiolaeth ar ansawdd y gofal a'r ddarpariaeth Gymraeg fyddai'n cael eu darparu yn y ddau sefydliad, ac*<br><br>*(d) ar ddiwedd y broses dendro bod y bidiau yn cael eu gwerthuso a'u dadansoddi ar gyfer* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 25 Hydref 2016**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *effeithiau posibl gan y Grŵp Tasg a Gorffen cyn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a'r Cabinet gydag argymhellion y Darparwr a ffafrir, cyn eu penodi, er mwyn cael cymeradwyaeth lawn y Cabinet ac i sicrhau'r canlyniad mwyaf manteisiol. (Byddai unrhyw benodiad yn amodol ar y Cabinet yn cael ei fodloni y byddai trosglwyddo asedau a'r ddarpariaeth gwasanaethau a gynlluniwyd yn y sefydliadau hynny er budd gorau'r defnyddwyr gwasanaeth, trigolion a'r Cyngor).* |
| **6** | FFRAMWAITH PARTNER DATBLYGU HAMDDEN | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig i benodi Alliance Leisure Services Limited fel partner datblygu'r Cyngor ar fframwaith pedair blynedd i alluogi datblygu cyfleusterau newydd yn barhaus ac ailwampio cyfleusterau hamdden presennol o fewn Sir Ddinbych. Bydd unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir yn cael ei ystyried fel rhan o strategaeth gyllidol y gwasanaeth.* |
| **7** | ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 1 – 2016/17 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd chwarter 1 o 2016/17.* |
| **8** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.* |
| **9** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |